

Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr CCAUC

Lle Gwag ar gyfer Aelod

Crynodeb

Mae CCAUC yn chwilio am ymgeiswyr i'w penodi'n Aelod i gynrychioli ysgolion ar ein Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr (SOAC). Rydym yn chwilio am aelod uwch o staff o ysgol a chanddi chweched dosbarth, neu o goleg addysg bellach sy'n darparu llwybrau cynnydd i addysg uwch. Un o bwllgorau Cyngor CCAUC yw SOAC, ac mae'n gweithredu fel gwasanaeth cynghori.

Cylch gwaith y Pwyllgor yw rhoi cyngor ar gyfleoedd a chyflawniadau myfyrwyr ym maes addysg uwch, gan gynnwys addysg gyfrwng Cymraeg, ehangu mynediad, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a sgiliau a chyflogadwyedd, gyda'r nod o sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru yn bodloni anghenion a disgwyliadau myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn.

Ni roddir tâl i aelodau'r Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr. Serch hynny, bydd CCAUC yn eich ad-dalu am unrhyw dreuliau rhesymol a ysgwyddir gennych yn rhinwedd eich dyletswyddau, ac a gofnodir yn briodol, yn unol â'n gweithdrefnau teithio a chynhaliaeth.

Bydd y penodiad yn para am dymor cychwynnol o hyd at dair blynedd, oni bai y bydd yn cael ei derfynu gan y naill ochr neu'r llall, ac mae posibilrwydd o ailbenodiad am dymor arall.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 20 Rhagfyr 2019.

Y Pwyllgor

1. Mae CCAUC yn chwilio am ymgeiswyr i'w penodi'n Aelod i gynrychioli ysgolion ar ein Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr (SOAC). Un o bwyllgorau Cyngor CCAUC yw SOAC, ac mae'n gweithredu fel gwasanaeth cyngori.
2. Dylai ymgeiswyr ymgeisio erbyn **20 Rhagfyr 2019**.
3. Mae CCAUC yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned. Penodir ar sail teilyngdod.

Cefndir

4. Sefydlwyd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ar 1 Gorffennaf 1999, daeth CCAUC yn un o gyrff noddedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a oedd newydd gael ei sefydlu. Yn dilyn hyn, fe'n galwyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) ac yna, yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2011.
5. Mae CCAUC yn gorff cyfryngol rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector addysg uwch (AU) yng Nghymru, ac rydym yn darparu cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru am y sector. Rydym yn cynorthwyo'r system AU yng Nghymru i wireddu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan sicrhau dysg, addysg ac ymchwil o ansawdd uchel a chan gyfrannu at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.
6. Daeth Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 i rym ym mis Mawrth. Mae hyn wedi golygu newidiadau i bwerau CCAUC – ac, yn arbennig, mwy o rôl iddo fel rheoleiddiwr addysg uwch (AU) yng Nghymru. O dan y Ddeddf newydd, mae gan CCAUC ddyletswyddau penodol yn ymwneud â: ffioedd a chynlluniau mynediad; ansawdd addysg; Cod Rheolaeth Ariannol ar gyfer sefydliadau a reoleiddir Gydag effaith o 1 Awst 2015, daeth pob darparwr addysg uwch â chynllun ffioedd cymeradwy yn sefydliad a reoleiddir. Daeth y rhan fwyaf o bwerau CCAUC o dan y ddeddfwriaeth newydd i rym ar 1 Medi 2015
7. Rôl y Pwyllgor yw rhoi cyngor i'r Cyngor ar faterion ynglŷn â chyfleoedd a chyflawniadau myfyrwyr ym maes addysg uwch, gan gynnwys addysg gyfrwng Cymraeg, cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a sgiliau a chyflogadwyedd, gyda'r nod o sicrhau bod Addysg Uwch Cymru yn bodloni anghenion a disgwyliadau myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae hefyd yn gweithredu fel rhywle i drafod dulliau newydd o ddatblygu polisiau yn y meysydd a gynhwysir yng nghylch gwaith y Pwyllgor, ac mae'n cynnig argymhellion ar gyfer strategaethau'r Cyngor, er mwyn cefnogi Strategaeth Gorfforaethol CCAUC, fel y mae'n berthnasol i'r meysydd sy'n cael eu trafod gan y pwyllgor hwn.

Y Person

8. Rydym yn gobeithio gwneud y penodiad isod:

- Cynrychiolydd ysgolion – unigolyn mewn rôl uwch mewn ysgol a chanddi chweched dosbarth, neu o goleg addysg bellach sy'n darparu llwybrau i addysg uwch er mwyn rhoi cipolwg eang i faterion a brofir gan ddysgwyr ifanc sy'n mynd i addysg uwch, gan gynnwys materion yn gysylltiedig ag ehangu mynediad, cyflogadwyedd, sgiliau, cynnydd a disgwyliadau a phrofiadau myfyrwyr.

Y rôl

9. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn.
10. Wrth ymgeisio am y penodiad hwn, rydych yn cadarnhau eich bod yn gallu neilltuo digon o amser i baratoi ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr – a'u mynychu, – a'ch bod yn gallu cyflawni unrhyw ddisgwyliadau eraill eich rôl, e.e. dod yn llwyr gyfarwydd â'r amrywiaeth o feysydd a drafodir gan y pwyllgor hwn.

Telerau penodi

11. Bydd y penodiad yn para am dymor cychwynnol o hyd at dair blynedd, oni bai y bydd yn cael ei derfynu gan y naill ochr neu'r llall, ac mae posibilrwydd o ailbenodiad am dymor arall.
12. Ni roddir tâl i aelodau'r Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr. Serch hynny, bydd CCAUC yn eich ad-dalu am unrhyw dreuliau rhesymol a ysgwyddir gennych yn rhinwedd eich dyletswyddau, ac a gofnodir yn briodol, yn unol â'n gweithdrefnau teithio a chynhaliaeth.
13. Mae'n ofynnol arnoch i ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol i CCAUC yn flynyddol, ac i ddiweddarau eich datganiad pa bryd bynnag y bydd newid sylweddol.
14. Disgwyliwn ichi gyflawni eich rôl gan lynu at y safonau uchaf o ymddygiad. Mae'r saith egwyddor ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus (egwyddorion Nolan) yn disgrifio'r safonau y dylech eu gweithredu.
15. Dylid rhoi cyngor yn unol ag egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Y broses benodi

16. Cytunir ar y penodiadau gan Bwyllgor Enwebiadau CCAUC.
17. Cyflwynwch eich cais ar ffurf CV a llythyr eglurhaol, gan ddangos perthnasedd eich cais am y swydd. Mae hyn yn cynnwys nodi manylion eich profiad fel yr amlinellir ym manyleb y rôl, ac yn fwy eang ar draws cylch gwaith y pwyllgor.
18. Rhaid ichi gadarnhau, os yw'n berthnasol, bod gennych gefnogaeth eich sefydliad neu fudiad i ymgymryd â'r rôl hon.
19. Dylid cyflwyno ceisiadau'n electronig i Nicola Hunt (nicola.hunt@hefcw.ac.uk), i gyrraedd erbyn **20 Rhagfyr 2019** fan bellaf.

Mae croeso i ymgeiswyr blaenorol nodi os ydynt yn dymuno cael eu hailystyried am y lle gwag.